

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 22AIN O FAI 2017 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Iwan Jones, Elfed Williams, Stanley Williams, Falmai Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iona Edwards-Jones, Jill Evans a Hywel Davies.

2. CWBLHAU'R FFURFLENNI DERBYN SWYDD A SEDD WAG Y CYNGOR.

A. Cwblhawyd yr Aelodau yn bresennol ffurflenni "Datganiad Derbyn Swydd" a "Cod Ymddygiad Aelodau – Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau – Hysbysiad o Ddiddordebau".
B. Hysbyswyd yn ffurfiol yn y cyfarfod o'r Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 - "Hysbysiad o Gyfethol" un sedd wag ar y Cyngor gyda'r wybodaeth i'w gyrru at Glerc y Cyngor erbyn 16eg o Fehefin 2017.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 24ain o Ebrill 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych i mewn i'r garreg ar goll ar waelod pont yr afon ar Stad Pont-y-Bedol yn Llanrhaeadr.
B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych bod cyfrifoldeb Cyngor Cymuned Llanrhaeadr yw'r ffens wrth Flwch Postio Brenhinol ym Mhentre' Llanrhaeadr. Penodwyd is-bwyllgor o'r Aelodau: Bari Evans, Elfed Williams a Philip Williams i drefnu trwsio'r ffens beryglus cyn gynted â phosib.
C. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Philip Williams ei fod wedi derbyn pris oddi wrth "PR Signs" o Ddinbych am arwydd "Araf - Plant yn Chwarae" rhwng Ysgol Bro Cinmeirch a Ffordd Pen-y-Bryn yn Llanrhaeadr - sef £26.00 (cyn Treth ar Werth) yr arwydd. Penderfynwyd prynnu day arwydd. Diolchwyd i'r Cynghorydd Williams am ei waith.
D. Mae'r Cynghorydd Philip Williams yn edrych i mewn i'r "Tir Comin" to ôl i Ysgol Pant Pastynog, Prion gyda'r Esgobaeth Llanelwy.
E. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch oddi wrth y Mudiadau canlynol am gefnogaeth arian y Cyngor:-
1. Pwyllgor y Fynwent, Capel Saron.
2. Ysgol Pant Pastynog, Prion.
3. Pwyllgor Cart-y-Plwyf.
4. Ystafell Gymunedol, Llanrhaeadr.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £14,338.78.
B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r Precept am y flwyddyn 2017/18 - £3,960.00.
C. Derbyniwyd adroddiad y Clerc bod Cyfrifon y Cyngor wedi cael eu cwblhau am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fehefin 2017 a derbyniwyd adroddiad glan gan "Archwiliwr Mewnol y Cyngor" - Mr Simon Murray-Williams o Gwmni Harold Smith o Llanelwy. Arwyddwyd y Cadeirydd ar Glerc y cyfrifon am mi fydd yn gyfrifon yn nawr yn cael eu gyrru ymlaen i'r "Archwiliwr Allanol" y Cyngor - Cwmni BDO o Southampton.
D. Taliadau:-
1. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod y Cyngor - £35.00.
2. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol - £144.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

- A. Mae'r cais cynllunio am saith tyrbin wynt yn Llyn Bran, Bylchau wedi mynd i'r "Apêl".
- B. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r amodau yn Brÿn Morfydd, Llanrhaeadr.
- C. Derbyniwyd manylion o'r cywiro'r amodau cais cynllunio Fferm Wynt Coedwigaeth Clocaenog oddi wrth Gwmni "Innogy Renewables UK Limited".
- D. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl cais cynllunio diweddaraf safle Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron.

7. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus i wahodd Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020 yn Neuadd y Dref, Dinbych ar 14eg o Fehefin 2017 am 7.00 o'r gloch.
- B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

- A. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch trwy law'r Cynghorydd Elfed Williams yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned ynglŷn ar "Cymal" yn y les. Penderfynwyd gwahodd Ann Bitcon, Ysgrifenyddes "Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr YC" i'r cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y "Cymal".
- B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y materion canlynol:-
 1. Teiars sydd wedi cael ei adael wrth fynedfa cefn Bryn Morfydd, Llanrhaeadr.
 2. Wyneb y ffordd rhwng Bryn Mulan a Rossa Fawr ym Mhrion eisiau ei thrwsio.
 3. Wyneb ffordd rhwng pentref Prion tuag at Lanrhaeadr eisiau ei thrwsio.
- C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc hysbysu BT bod yna tyfiant tu fewn i Flwch Ffon Gyhoeddus ym Mhrion.
- D. Penderfynwyd trafod prinder lle yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 26ain o Fehefin 2017 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.